**Sesiwn 1999-2000 Rhif 28**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 3 TACHWEDD 1999

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt, yr Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (15 munud)

Ceir rhestr o’r Cwestiynau llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Tom Middlehurst, Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant** (15 munud)

Ceir rhestr o’r Cwestiynau llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Datganiad gan yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd**

Bydd yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd yn gwneud datganiad ar Bairdwear

**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Democratiaid Rhyddfrydol** (i ddechrau am 3.30pm)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod pwysigrwydd yr economi cymdeithasol yng Nghymru fel dull o leihau dieithrwch cymdeithasol, ac mae o'r farn y dylid defnyddio'r mentrau canlynol i annog ei ddatblygiad:

- bod Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad yn cychwyn ar arolwg o ddulliau ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru â'r nod o wneud y canlynol:

**(a)** safoni cyfnod cyllido arferol cyllid uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cyfnod 3 i 5 mlynedd i sicrhau sefydlogrwydd ac i hyrwyddo cynllunio tymor hir gan gyrff gwirfoddol

**(b)** symud y pwyslais o gyllido projectau unigol i fuddsoddi mewn swyddogaethau a seilwaith craidd, er mwyn hybu annibyniaeth y sector

**(c)** sicrhau tryloywedd a chysondeb gweithdrefnau cyllido

- bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cynnal ymchwiliad i sefydlu uned buddsoddi cymunedol, fel rhan o Fanc Datblygu Menter i Gymru, i sianelu Cyllid Strwythurol Ewropeaidd i fentrau cymunedol.

**Dewiswyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1**

**Alun Cairns ( Gorllewin De Cymru ) ;**

yn llinell 2 ar ôl y geiriau "yng Nghymru", ychwaneger y geiriau "ond yn derbyn ei gyfyngiadau"

a

dileer y pwynt bwled olaf a rhoi yn ei le:

"bod ysgrifennydd perthnasol y cynulliad yn cynnal ymchwiliad gwerth am arian o bob project ‘economi cymdeithasol’ a ariennir yn gyhoeddus".

**Dadl Plaid Leiafrifol : Plaid Cymru** (i ddechrau am 4.30pm)

Mae’r Cynulliad hwn wedi ymrwymo i NHS yng Nghymru ac mae’n canolbwyntio’n benodol ar y gymuned. Yn ychwanegol at hyn, mae’r Cynulliad yn galw am:

1. Ehangu a chryfhau’r rhwydwaith *ALL Wales* o ysbytai cymunedol:
2. Dylai gwariant ar iechyd yng Nghymru barchu egwyddorion mynediad a

gwasanaeth, a’r gwahanol anghenion yng Nghymru.

Yn ogystal, mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod nad yw cau ysbytai, a oedd yn bolisi dros y ddau ddegawd diwethaf, a chanoli gwasanaethau’r NHS fwyfwy, sy’n bolisi gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problem yr NHS yng Nghymru.

**Dewiswyd y gwelliannau canlynol:**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe ) ;**

**Gwelliant 1**

Dileer y geiriau "Ehangu a" o bwynt 1 a newid "chryfhau’r" i "cryfhau’r" a

Dileu o’r paragraff diwethaf "…sy’n bolisi gan y Llywodraeth bresennol, ".

**David Melding ( Canol De Cymru );**

**Gwelliant 2**

Ar ôl pwynt 2, ychwaneger:

"3. Bod y Cabinet yn dilyn cyngor y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu gwariant ar yr NHS yn ychwanegol at y lefel a amlinellir yng Nghynlluniau Gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2000-01.

**Gwelliant 3**

Ar ôl "Yn ogystal, mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod", dileer gweddill y cynnig a rhoi yn ei le :

"nad yw’r duedd gynyddol i ganoli gwasanaethau’r NHS, sy’n bolisi gan y Llywodraeth bresennol, yn ateb problemau’r NHS yng Nghymru."

4. I’r Cabinet weithredu ar fyrder i ddatrys argyfwng ariannol yr NHS fel y’i disgrifir yn Adroddiad Cloriannu’r NHS a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1999."

**Daw’r sesiwn i ben am 5.30pm**

**Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm, ddydd Mawrth, 9 Tachwedd 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**